Cynhadledd: Caffael Cynaliadwy yn y Sector Cyhoeddus, Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd, 23 Mawrth 2007

Adroddiad gweithdy

Addysg: Cynhyrchu defnyddwyr gwybodus

Cadeirydd: Claire Fowler, Hyrwyddwr Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, Llywodraeth y Cynulliad Cymreig

Caroline Davies, Prosiect CAFE
Mae'r Prosiect CAFE wedi'i leoli ym Mhowys a'i nod yw cysylltu plant gyda mannau cynhyrchu bwyd lleol trwy gyfrwng ymweliadau ysgolion â ffermydd. Mae hefyd yn llunio cysylltiadau gyda chynhyrchwyr lleol, ac yn darparu adnoddau ar gyfer dysgu am fwyd a chefnogi Marchnadoedd Ffermwyr yn yr ysgolion gyda chydweithrediad y disgyblion. Caiff ei ariannu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'i gefnogi gan Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Powys, sy'n darparu adnoddau swyddfa a'r cysylltiadau uniongyrchol gydag ysgolion. Mae ffermwyr yn croesawu ymweliadau gan ysgolion o dan nawdd y cynllun Tir Gofal neu ar sail wirfoddol, tra bod y Prosiect CAFE yn darparu cyngor a chefnogaeth. Rhedodd brosiect peilot yn ddiweddar o'r cwrs Cynllun Achredu Ymweliadau Addysgol Cefn Gwlad (CEVAS) cyntaf yng Nghymru, i ddarparu ffermwyr gyda thri diwrnod o hyfforddiant mewn gweithio gydag ysgolion.
Am fwy o wybodaeth edrychwch ar:
www.midwalesfoodandlandtrust.org.uk/cafeproject. Mae'r Prosiect CAFE yn gweithio mewn partneriaeth gyda FACE Cymru, gwelwch www.face-cymru.org.uk.

Sue Bowker, Cynlluniau Rhwydwaith Cymru o Ysgolion Iach
Partneriaeth yw'r Rhwydwaith rhwng y gwasanaethau iechyd ac addysg ac mae'n gweithio yn holl Awdurdodau Addysg Lleol Cymru, gan ymwneud ag iechyd yn ei holl agweddau: corfforol, meddyliol ac emosiynol. Ym Mehefin 2008 cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar Fwyd a Ffitrwydd, sydd yn cyflwyno rhaglen o weithredu ar gyfer plant a phobl ifainc mewn ysgolion a'r gymuned. Cafodd llyfryn o astudiaethau achos, 'Mewn Persbectif: bwyd a ffitrwydd' hefyd ei gyhoeddi yn 2006, ynghyd â'r 'Food in Schools Assessment Tool' ac mae canllawiau 'Datblygu Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gyfan' hefyd ar gael.
Mae Llywodraeth y Cynulliad Cymreig yn ariannu Bws Coginio a fydd eleni yn ymweld ag Eisteddfod yr Urdd, ac sydd yn gweithio gyda Setpoint Wales i ddatblygu fersiwn Gymraeg o'r 'British Food Fortnight.' Roedd y newidiadau a argymhellwyd i'r cwricwlwm ysgol yn cynnwys mwy o goginio yng Nghyfnod Allweddol 3.
Am fwy o wybodaeth edrychwch ar: www.healtheschool.org.uk.

Paul Stepczak, Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Glyncoch
Cymerodd plant yn Ysgol Gynradd Cefn yng Nglyncoch, Rhondda Cynon Taf, ddiddordeb mewn garddio pan ddechreusant weithio gyda'r drefniadaeth wirfoddol *Fernhill Landscape Improvement* a *Nature Team (FLINT)*, sy'n berchen ar ardd gymunedol. Ymatebodd y plant yn dda i'r garddwyr hŷn, ac oherwydd eu brwdfrydedd am dyfu llysiau a salad, penderfynodd yr ysgol i gynnal ei lotment ei hun er mwyn i'r plant ofalu amdani gyda chymorth gan FLINT. Agorwyd y lotment gan Jane Davidson, AC, fis Medi diwethaf ac mae cynlluniau ar droed i'r ardd gynhyrchu llysiau ar gyfer cegin yr ysgol a gwerthu'r gweddill i'r gymuned leol.

Am fwy o wybodaeth edrychwch ar: www.shape-it.org/Community/CommunityServices/CommunitiesFirst/GlyncochCommunitsFir/.

Trafodaeth: beth yw'r camau nesaf?

Cododd y pwyntiau canlynol o'r trafodaethau grŵp:

- Y budd o gael 'hyrwyddwyr' yn y gymuned a allai helpu i gynhyrchu diwylliant bwyd lleol trwy ddarparu mynediad i hyfforddiant ac adnoddau. Cynigiwyd y term 'foodworker' (gweithiwr bwyd)
- Os bydd rhieni yn dysgu ochr yn ochr gyda'u plant, mae'r wybodaeth newydd yn fwy tebygol o arwain at newid parhaol
- Peryglon cyllido tymor byr; allwn ni ddim dadwneud 30 mlynedd o niwed gyda chyllideb tair blynedd
- Y gwerth o gael ysgolion i rwydweithio gyda'i gilydd: mae gweld esiampl gan gymheiriad yn gallu rhoi hyder i bobl geisio gwneud rhywbeth newydd
- Yr angen am wirfoddolwyr: nid yn unig am fod eu llafur yn rhad ond am fod ganddynt eisoes ymrwymiad i'w cymuned leol
- Mae perygl pwysleisio mentrau newydd ar draul dulliau profedig
- Mae angen prosiectau cynaliadwy arnom a fydd yn adeiladu cynhwysedd tymor hir
- Gall 'bancio amser' gynorthwyo cymunedau i ddod o hyd i adnoddau
- Mae deddfwriaeth yn gallu cyfyngu arnom pan ddymunwn wneud pethau newydd, er enghraifft, camddeallir iechyd a diogelwch ar y fferm yn aml.
- Mae'n beth da i gael cronfa ddata o brosiectau a syniadau